INSMAR016

Datblygu polisi prisio a'i weithredu

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu polisi prisio a'i weithredu ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau sefydliad. Rydych yn nodi'r polisi prisio yn unol â'r strategaethau a'r amcanion marchnata yn ogystal ag ystyried ffactorau mewnol ac allanol. Rydych yn monitro effeithiolrwydd y polisi ac yn ei werthuso yn erbyn meini prawf cytûn. Rydych yn gwneud argymhellion y gellir eu cyfiawnhau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud newidiadau i'r polisi prisio. Mae'r safon ar gyfer gweithwyr marchnata proffesiynol sy'n datblygu ac yn gweithredu polisi prisio.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. pennu polisi prisio ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau yn unol â strategaeth ac amcanion marchnata cyffredinol eich sefydliad
2. gwneud yn siŵr bod y polisi prisio yn ystyried ffactorau mewnol ac allanol
3. cytuno ar y polisi prisio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
4. monitro effeithiolrwydd y polisi prisio yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt
5. datblygu meini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd polisi prisio
6. cytuno ar feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd polisi prisio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
7. gwerthuso effeithiolrwydd y polisi prisio yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt
8. asesu effaith bosibl newidiadau prisio ar randdeiliaid a'r sefydliad
9. cynnig newidiadau i'r polisi prisio i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan wneud argymhellion y gellir eu cyfiawnhau
10. dilyn gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol cyfredol, codau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol wrth ddatblygu'r polisi prisio a'i weithredu

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y polisi prisio yn erbyn strategaeth ac amcanion marchnata eich sefydliad
2. sut i brisio cynhyrchion neu wasanaethau
3. y ffactorau mewnol ac allanol i'w hystyried wrth ddatblygu polisïau prisio
4. y mathau o gostau dan sylw a sut gall y rhain effeithio ar bolisi prisio
5. y dulliau y gellir eu defnyddio i fonitro polisi prisio, pryd y dylid gwneud hyn a sut i gasglu gwybodaeth
6. sut i ddatblygu a chytuno ar feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd polisi prisio
7. sut i werthuso effeithiolrwydd polisi prisio gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt i ddadansoddi gwybodaeth a dod i gasgliadau
8. y sefyllfaoedd pryd y dylech argymell bod prisiau'n cael eu codi a'u gostwng
9. pwysigrwydd edrych ar effeithiau newidiadau i bolisi prisiau ar randdeiliaid a'r sefydliad
10. sut i asesu pa effaith y gall newid polisi prisiau ei chael ar y sefydliad
11. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol cyfredol, codau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol wrth ddatblygu'r polisi prisio a'i weithredu

INSMAR016

Datblygu polisi prisio a'i weithredu

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2021
Indicative Review Date	Mawrth 2026
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	CFAMAR20
Galwedigaethau perthnasol	Marchnata a Gwerthiant; Rheolwr Marchnata a Gwerthu; Cydymaith Marchnata; Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata; Swyddog Marchnata
Cyfres/Set	Marchnata
Geiriau Allweddol	Marchnata, gwerthu, rheoli marchnata, ymchwil i'r farchnad, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus